Ariannol

## Gweithgaredd 5: Dangosyddion cam-drin / niwed / esgeulustod

# Categori Cam-Drin: Cam-Drin Ariannol

- arian neu eiddo arall wedi'i ddwyn
- dioddef twyll
- cael ei roi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall
- rhywun yn camddefnyddio ei arian neu eiddo arall.

Gallai cam-drin ariannol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc gynnwys:

- plant yn gweithio heb dâl
- y teulu'n mynd â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) heb ganiatâd y plentyn
- eiddo'r plentyn yn cael eu gwerthu neu ar goll
- hawliadau ffug am fudd-daliadau i'r plentyn a ffugio salwch
- camddefnyddio lwfansau/grantiau ar gyfer gofal y plant
- ceir amhriodol sydd wedi'u hariannu gan lwfansau a motability
- taliadau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwario ond nid er lles y plentyn gan ofalwr maeth neu ofalwr sy'n berthynas.

**DANGOSYDDION**

**Corfforol**

- mae rhywun yn codi arian pensiwn neu fudd-daliadau, ond does gan yr unigolyn ddim arian, yn enwedig os yw'r unigolyn hwnnw angen cymorth i wario arian
- achosion anesboniadwy neu amhriodol o godi arian o gyfrifon banc
- biliau heb eu talu neu rhent dyledus pan fo pobl eraill wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb
- creu / newidiadau i atwrneiaeth barhaus, ewyllys neu fuddion yswiriant pan nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud penderfyniadau o'r fath
- mae perthnasau sy'n poeni am golli etifeddiaeth yr eiddo yn rhwystro'r unigolyn rhag mynd i gartref preswyl / cartref nyrsio
- mae dogfennau ariannol wedi diflannu, e.e. cofnodion banc / cymdeithas adeiladu, llyfrau talu / archeb, neu bapurau budd-daliadau
- llofnodion ariannol, e.e. sieciau, ddim byd tebyg i lofnod yr unigolyn, neu pan nad yw'n gallu ysgrifennu
- eiddo personol ar goll, fel llestri arian, tlysau a gemwaith neu eitemau gwerthfawr eraill
- diffyg cofnodi / monitro ariannol yn y lleoliad gofal
- trafodion ar-lein pan nad oes gan yr unigolyn unrhyw sgiliau o'r fath.

### Emosiynol

- yn ddryslyd, gofidus neu ofnus wrth drafod anghysonderau ariannol
- mae'r unigolyn yn mynegi pryderon am ddwyn, bygythiadau, gorfodaeth neu eiddo ar goll.

### Ymddygiad

- mae'r camdriniwr yn poeni'n ormodol bod gormod o arian yn cael ei wario ar ofal yr unigolyn
- mae'r unigolyn agored i niwed yn adleisio esboniadau annhebygol y camdriniwr.

### Cymdeithasol

- mae'r camdriniwr / gofalwr yn mynd ati'n fwriadol i gadw'r unigolyn ar wahân i deulu neu ffrindiau, gan arwain at reolaeth ariannol wedyn
- diffyg cyfleusterau cyffredin fel teledu, dillad amhriodol, eitemau glendid personol
- mae'r camdriniwr / gofalwr yn rhwystro'r unigolyn rhag gwario arian ar weithgareddau diwylliannol / cymdeithasol
- mae'r camdriniwr / gofalwr yn gwneud defnydd amhriodol o fuddion cymdeithasol, e.e. car motability.

### LLE ALLAI HYN DDIGWYDD?

- cartref yr unigolyn dan sylw
- cartref gofal preswyl
- cartref nyrsio
- llety gwarchod
- cartref perthynas.

### PWY ALL FOD YN GYFRIFOL NEU'N ACHOSI HYN?

- gofalwr cartref
- gofalwr preswyl
- perthynas / rhiant / plentyn / gŵr neu wraig / gofalwr arall
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr proffesiynol
- ffrind i'r teulu / cymydog.